

Sioe Frenhinol Cymru

22 – 25 Gorffennaf 2024

Pentref Garddwriaeth

Garddwelyau Sioe Micro

Datganiad o ddiddordeb i'w gyflwyno erbyn:-

Dydd Gwener 26 Ebrill 2024

Manylion llawn i'w cyflwyno erbyn:-

Dydd Gwener 17 Mai 2024



Cyflwyniad



CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL
ANRHYDEDDUS GARDDWRIAETH
CAFC
ADAM JONES

Yn 2024, bydd yr adran arddwriaeth wedi'i lleoli o fewn y Pentref Garddwriaeth newydd, sef gweledigaeth newydd y Gymdeithas ar gyfer garddwriaeth fel y'i lansiwyd yn Sioe 2023. Bydd y pentref yn dathlu pob agwedd ar arddwriaeth yng Nghymru - o dyfu cymunedol i dyfu masnachol, dangos ac arddangosfeydd cystadleuol, ochr yn ochr â hyrwyddo manteision iechyd a manteision cymdeithasol garddio.

Yr ethos yw 'ysbrydoli, addysgu a chydweithio'. Bydd y pentref yn fan i ysbrydoli trwy arddangos rhagoriaeth gydag arddangosion ac arddangosfeydd cystadleuol. Bydd yn lle ar gyfer addysg a dysgu trwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion a cholegau. A bydd yn creu cyfle i gydweithio trwy fannau cymdeithasol cynhwysol, ardaloedd cyfarfod a llwyfan i groesawu siaradwyr gwadd ac arddangosfeydd cyffrous.

Bydd yr elfennau cystadleuol - yr adrannau Trefnu Blodau/Garddwriaeth/lau - yn cael eu cynnal o fewn ardaloedd ar wahân eleni a bydd yna hefyd Hyb Dysgu newydd 'Y Dysgubor' ar gyfer addysg, arddangosiadau a datblygu sgiliau.

Yn newydd ar gyfer 2024 fydd y cyfle i ddarparu 'Garddwelyau Micro', y gobaith yw y byddant yn arddangos gwahanol agweddau ar arddwriaeth yng Nghymru - boed yn ficrodyfu eich lleiniau llysiau eich hun, fflora brodorol a bioamrywiaeth, borderi blodau, gerddi sy'n gallu goddef sychder ayb - mae'r opsiynau'n agored ac rydym yn croesawu amrywiaeth.

'Does dim arian gwobrwyo ar gynnig, ond mae'n gyfle rhagorol i hyrwyddo'ch busnes, sefydliadau darpariaeth addysgol ayb. Mae cynigion i'w cyflwyno trwy e-bost ac i gynnwys enw'r busnes/sefydliad a'r holl fanylion cyswllt. Gofynnwn ichi gyflwyno amlinelliad byr o'ch gardd sioe hefyd os gwelwch yn dda gyda'r hyn yr ydych yn dymuno ei arddangos ac yn bwriadu ei gynnwys efallai.

Datganiadau o ddiddordeb erbyn -
Dydd Gwener 26 Ebrill.
Manylion llawn i'w cyflwyno erbyn -
Dydd Gwener 17 Mai.



Garddwelyau Sioe Micro



Pa seilwaith plannu fydd yn cael ei ddarparu?

- Bydd y cyfrwng plannu wedi'i ddarparu ar y safle - bydd y gwelyau wedi'u hanner llenwi, gyda'r 30cm sy'n weddill i'w gwblhau yn ystod y plannu (rydym yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o sbesimenau wedi'u potio ac o'r herwydd y gallant fod ag angen triniaeth ar yr wyneb yn unig i guddio'r potiau).
- Man tyfu diffiniedig - 2.6m x 1.3m. Bydd y gwelyau'n cael eu codi gyda sliperi pren o flaen llaw ac i'w gweld o bob cyfeiriad.
- Tomwellt a Graean - Bydd tomwellt (naddion coed) yn cael ei ddarparu ar y safle, a bydd llwybrau'n amgylchynu'r llecyn yn cael eu sefydlu gan ddefnyddio graean. Mae croeso ichi ddod â'ch deunyddiau tirlunio caled eich hun gyda chi, yn dibynnu ar ddyluniad y gwely sioe micro.

Beth gewch chi/na chewch chi ei wneud?

- Caniateir ichi fireinio'r gwelyau gyda nodweddion saernïol megis pyst, obeliscgau, delltwaith, cerfluniau.
- Ni fydd trydan yn cael ei ddarparu, felly, bydd rhaid i unrhyw oleuadau neu nodweddion dŵr gael eu gyrru gan fatri neu'r haul.
- Bydd rhaglen cynnal y planhigion yn cael ei datblygu gyda stiwardiaid y Pentref Garddwriaeth, ni fydd rhaid ichi ddyfrio na chynnal y borderi ar ôl y sefydlu cychwynnol - mae croeso ichi wneud hynny fodd bynnag, os ydych yn dymuno felly, ond bydd angen rhoi gwybod i CAFC o flaen llaw i sicrhau bod yr holl faterion ynglŷn â diogelwch a logisteg yn cael eu trefnu.
- Byddwch yn ystyriol o'n hamgylchedd os gwelwch yn dda, ble mae'n bosibl gofalwch fod pob cyfrwng tyfu yn ddi-fawn, ac ewch â phob gwastraff plastig ymaith o'r safle os gwelwch yn dda.
- Peidiwch â phlannu fflora a allai fod yn berygl i ddiogelwch y cyhoedd h.y. gwenwyndra blodau/deiliant.

- **Datganiad o ddiddordeb i'w ebostio erbyn dydd Gwener 26 Ebrill 2024**
- **Mae angen derbyn cynigion trwy ebost erbyn dydd Gwener 17 Mai 2024.** Ni dderbynnir cynigion ar ôl y dyddiad hwn.
- Bydd y Pentref Garddwriaeth ar agor i godi'r arddangosion hyn o Dydd Gwener 19 o Mehefin.
- **Rhaid i'r arddangosion aros yn eu lle hyd ddiwedd y Sioe ac ni cheir mynd â nhw ymaith cyn 5 y pwnn ar ddydd Iau 25 Gorffennaf 2024.**
- ♦ Bydd cyfranogwyr yn cael eu cyflenwi â 2 Docyn Gweithiwr Cyn y Sioe ac 1 Pàs Cerbyd Cyn y Sioe er mwyn cael mynediad i ddanfôn yr arddangosyn. Bydd y pasys hyn yn caniatáu i'r cyfranogwyr gasglu'r arddangosyn hefyd ar ôl 5 y pwnn ar ddydd Iau 25 Gorffennaf 2024.
- ♦ Ni fydd y Gymdeithas yn derbyn cyfrifoldeb am golled neu ddifrod i arddangosion (neu unrhyw ran ohonynt) neu i eiddo personol cyn, yn ystod neu ar ôl y Sioe, ac ni fydd y Gymdeithas yn gyfrifol ychwaith am golled unrhyw blanhigyn, blodyn neu gynhwysydd ar y ffordd i faes y sioe neu oddi yno, neu ar faes y sioe, yn ystod neu ar ôl y Sioe.
- Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu'ch data personol ac ond i'w brosesu'n unol â gofynion cyfreithiol. I gael mwy o fanylion dylech ofyn am gopi o'n Polisi GDPR. Rydym yn prosesu'ch data personol gan fod ei angen i gyflawni ein contract â chi i hwyluso eich mynediad i'r Sioe. Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data y tu allan i'r DU a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ac ni fyddwn yn rhannu'ch data gyda thrydydd parti heblaw am awdurdodau rheoleiddio neu Gymdeithasau cyswllt i bwy y gallem gyflwyno cynigion a chanlyniadau i wirio eu bod yn ddilys ac yn gymwys yn seiliedig ar eu buddiannau cyfreithlon. Bydd eich enw a'ch sir yn cael eu cyhoeddi yng nghatalog y Gymdeithas. Bydd canlyniadau'n cael eu dosbarthu hefyd i aelodau'r wasg a'u cyhoeddi ar ein gwefan. Rydym yn cadw'ch data yn unol â'n cofrestr cadw cofnodion i symleiddio ceisiadau yn y dyfodol. Mae gennych amrywiol hawliau yn y data a gadwn, yn cynnwys ei gywiro a gwrthwynebu ei brosesu. Dylech wybod hefyd y bydd ffotograffau a ffilm yn cael eu cymryd ledled Maes y Sioe at ddibenion darlledu, cyhoeddu'rwydd a marchnata.
- Sylwch os gwelwch yn dda os yw'r arddangoswr o dan 18 mlwydd oed yna mae'n rhaid i'r cynnig gael ei anfon ymlaen gan riant/ warcheidwad sydd dros 18 mlwydd oed. Sylwch os gwelwch yn dda fod pwy bynnag sy'n cyflwyno'r cynnig yn cymryd cyfrifoldeb llawn am gydymffurfio â'r holl reolau a rheoliadau



Manylion Cyswllt

Cyflwynwch eich cynnig i:-

Gaynor James

CAFC

Llanelwedd

Llanfair ym Muallt

Powys LD2 3SY

Ffôn: 01982 553683

E-bost: gaynor@rwas.co.uk

Dyddiau gweithio Dydd Mercher - Dydd Gwener

